

## **Memorandwm Esboniadol i'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r cod ymarfer uchod.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol. Rwy'n fodlon bod y manteision yn drech nag unrhyw gostau.

*Mark Drakeford AC*

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

23 Mehefin 2015

## Rhan 1 – TROSOLWG

### 1. Disgrifiad

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) yn dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofawyr y mae angen cymorth arnynt mewn un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith statudol i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar les, hawliau a chyfrifoldebau.

Mae pobl, eu teuluoedd a'u cymunedau yn asedau cyfoethog ac maent wrth wraidd y fframwaith cyfreithiol hwn. Mae gan bob oedolyn a phlentyn yr hawl i gael ei glywed fel unigolyn, llywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arno a rheoli ei fywyd o ddydd i ddydd.

Nodir ystyr lles mewn perthynas ag unigolyn yn adran 2 o'r Ddeddf. Mae lles yn gysyniad eang sy'n ymwneud â phob agwedd ar fywyd unigolyn a bydd llawer o wasanaethau yn helpu pobl i sicrhau eu lles.

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hybu lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofawyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn gymwys i bob unigolyn a chorff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac asiantaethau statudol eraill.

Mae adran 8 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad statudol mewn perthynas â lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofawyr y mae angen cymorth arnynt. Rhaid i'r datganiad hwn nodi'r canlyniadau sydd i'w cyflawni o ran mesurau lles a chanlyniadau, y caiff y broses o gyflawni'r canlyniadau hynny ei hasesu drwy gyfeirio atynt. Caiff y datganiad o ganlyniadau lles sydd i'w cyflawni ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru a'i osod gerbron y Cynulliad pan weithredir y Ddeddf yn 2016.

Mae'r codau ymarfer eraill a gyhoeddwyd o dan adran 145 yn nodi gofynion a osodir ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswyddau o dan bob rhan o'r Ddeddf, gan gynnwys y gofynion yn adran 5.

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn nodi fframwaith ar gyfer mesur y cynnydd y mae awdurdodau lleol wedi'i wneud mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf yn gyffredinol ac yn galluogi awdurdodau lleol i wella gwasanaethau yn barhaus.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Nid oes unrhyw faterion y mae'r Gweinidog am eu dwyn i sylw'r Pwyllgor.

### **3. Cefndir deddfwriaethol**

Mae'r pwerau sy'n galluogi i'r cod hwn gael ei wneud i'w cael yn Adrannau 145 a 146 o'r Ddeddf.

Mae Adran 145 o'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi, ac o bryd i'w gilydd adolygu, un cod ymarfer neu fwy ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae Adran 146 o'r Ddeddf yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth gyhoeddi neu ddiwygio cod o dan Adran 145.

### **4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth**

Bydd pobl a gwasanaethau yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni canlyniadau lles; bydd gwasanaethau yn uniongyrchol atebol am berfformiad a darparu gwasanaethau.

Caiff lles ei fesur yn genedlaethol gan fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yn cynnwys mesurau canlyniadau cenedlaethol ar gyfer lles y bydd pob gwasanaeth a phobl eu hunain yn cyfrannu atynt. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiadau ar y mesurau canlyniadau cenedlaethol hyn a byddant yn cynnig mwy o dryloywder ynghylch a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn gwella canlyniadau lles cenedlaethol i bobl yng Nghymru.

Yn sail i'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol, mesurir cyfraniad gwasanaethau o fewn fframwaith mesur perfformiad. Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn nodi'r fframwaith hwn ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cynnwys y canlynol:

Safonau ansawdd i awdurdodau lleol sy'n disgrifio gweithgareddau awdurdodau lleol sy'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau lles, mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol;

Mesurau perfformiad a gaiff eu nodi mewn perthynas â chyrraedd y safonau ansawdd.

Diben ac effaith fwriadedig y fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yw:

galluogi pobl eu hunain i ddeall ansawdd y gwasanaeth y mae ganddynt hawl iddo a gwneud penderfyniadau hyddysg am eu gofal a'u cymorth;

ategu gwaith cynllunio strategol awdurdodau lleol, sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu'n effeithiol ac yn effeithlon, annog arloesi wrth ddatblygu gwasanaethau a galluogi awdurdodau lleol i dargedu adnoddau a gweithgarwch gwella;

helpu awdurdodau lleol i ddeall yr hyn y maent yn ei wneud yn dda er mwyn cydnabod a rhannu arfer da o fewn awdurdodau lleol a rhyngddynt a'r hyn nad ydynt yn ei wneud cystal, yr hyn y gallent ei wneud yn wahanol a'r hyn sydd angen ei unioni.

galluogi awdurdodau lleol sy'n darparu gofal a chymorth i gymharu a meincnodi eu perfformiad yn erbyn eraill a dysgu a gwella;

darparu tystiolaeth o gyfrifoldeb ac atebolrwydd am ddarpariaeth leol i Weinidogion Cymru a llywio'r gwaith o ddatblygu polisi cenedlaethol a phennu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer polisi gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru;

llywio'r gwaith o newid prosesau darparu gwasanaethau er mwyn helpu pobl a theuluoedd i fyw'n annibynnol;

ategu a llywio'r gyfundrefn reoleiddio ac arolygu.

## 5. Ymgynghoriad

Mae Adran 146 (1) o'r Ddeddf yn nodi, cyn cyhoeddi neu adolygu cod o dan Adran 145, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y cod drafft. Bu'r cod yn destun ymgynghoriad 12 wythnos a gynhaliwyd rhwng 2 Chwefror 2015 a 24 Ebrill 2015.

Cafwyd 57 o ymatebion ysgrifenedig o sylwedd i'r ymgynghoriad, gan amrywiaeth eang o unigolion, grwpiau cynrychioliadol, y rhai â dyletswyddau a sefydliadau proffesiynol. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn un cadarnhaol ar y cyfan ac roedd cefnogaeth ac ymrwymiad clir i'r newidiadau rydym yn eu datblygu. Roedd nifer o themâu cyffredin - cyfeiriodd ymatebion yn benodol at gyd-gynhyrchu, gwaith partneriaeth a manylion technegol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, adolygwyd y cod ac fe'i diwygiwyd, lle roedd yn briodol, er mwyn ystyried barn ymatebwyr.

Ceir adroddiad cryno ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cynulliad – <http://gov.wales/consultations/?skip=1&lang=cy>.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid yw'r cod yn is-ddeddfwriaeth a wneir gan offeryn statudol ac, felly, nid oes angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o dan 4.2 o God Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru.

Fodd bynnag, ystyriwyd a yw effaith y cod, sut bynnag, yn ddigon i gyfiawnhau cwblhau asesiad effaith rheoleiddiol. Bu'r cod ymarfer yn destun amrywiaeth eang o asesiadau effaith, gan gynnwys y canlynol: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae'r asesiadau effaith hyn wedi dangos nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar unrhyw un o'r meysydd sy'n cael eu hystyried. At hynny, nid yw'r cod yn creu unrhyw faich ariannol rheoleiddiol ychwanegol; felly, ni chwblhawyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn.

Ceir yr asesiadau effaith ar wefan Llywodraeth Cymru – <http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?lang=cy>